

❖ DARLLENIAD A GWEDDI Y NADOLIG

Darlleniad: Mathew 1–2

Ein Tad, plygwn yn wylaidd ac yn ddiolchgar ger dy fron yn awr i ddiolch am gael dathlu'r Nadolig. Diolch am y fath destun ar gyfer diolchgarwch a dathlu – bod dy Fab, Iesu Grist, wedi dod i'n plith. Ganwyd Imaniwel – Duw gyda ni. Y Mab, Ail Berson y Drindod, wedi dod i'n byd yn berson o gig a gwaed fel ninnau. Y mae pob geni'n wyrthiol mewn rhyw ystyr, ond dyma wyrth lawer mwy – geni Duw yn ddyn. A'i eni mewn preseb o bobman, yn dlawd a chyffredin iawn. Gallasai fod wedi ei eni mewn palas, fel y disgwyliai'r doethion, yn gyfoethog a chlyd. Ond ni ddewisodd hynny. Yn hytrach, fe'i huniaethodd ei hun â'r ddynoliaeth ar ei thlotaf. Daeth i ganol bywyd a'i hagrwrch, ei dlodi a'i anghenion.

'Daeth Brenin yr hollfyd i oedfa ein hadfyd
er symud ein penyd a'n pwn;
heb le yn y llety, heb aelwyd, heb wely,
Nadolig fel hynny gadd hwn.'

Wrth inni ddathlu'r Nadolig eleni, gofynnwn am i ti gadw ein llygaid ar Iesu, a'n ffydd yn gadarn ynddo. Cawn ein hudo i golli golwg arno er ein gwaethaf rywsut yng nghanol yr holl seciwlareiddio a'r masnacheiddio sydd wedi dod i nodweddu dathliadau ein hoes ni. Er ein bod yn edrych ymlaen at gael rhoi a derbyn anrhegion eto eleni, helpa ni i beidio colli golwg ar dy rodd di i ni, sef dy Fab. Wrth inni werthfawrogi cariad a charedigrwydd pobl drwy gyfrwng eu hanrhegion a'u cyfarchion i ni, helpa ni i weld dy gariad di yn Iesu. Gwared ni rhag i duedd ein hoes ein gwneud ni yn ddall, yn ddi-hid, yn fud ac yn anniolchgar am dy rodd anhraethol i ni. Wrth wirioni ar roddion pobl mor hawdd yw colli golwg ar wyrth a gwerth dy rodd di i ni yn Iesu Grist.

Pan fyddwn ni'n rhoi anrhegion Nadolig fe fyddwn yn eu rhoi i bobl yr ydym yn eu caru; pobl annwyl a charedig sy'n ein caru ni, teulu a chyfeillion. Rhoi anrhegion i'r rhai sydd, yn ein tyb ni, yn haeddu ein rhoddion. O! Dad, mor wahanol yr wyt ti'n rhoi – anfon dy Fab yn rhodd i bechaduriaid, i rai a gefnodd arnat ac a ddiystyrododd dy ewylllys, ac yn wir a fu mewn llawer o bethau yn elynion i ti. Ein Tad, cyffeswn yn awr nad ydym yn haeddu dim o'th law ond dy gondemniad a'th farn. Eto, yn Iesu yr wyt yn dangos ac yn estyn dy gariad tuag atom. Daeth i'r byd yn ddyn – Duw gyda ni – ond eto'n wahanol gan ei fod yn ddibechod – 'Ni wnaeth ef bechod, ac ni chafwyd twyll yn ei enau'. Ac ar y Groes bu Iesu farw dros ein pechod ni. Derbyniodd ef y gosb am ein pechod er mwyn i ni gael maddeuant a dod yn blant i ti, a chael etifeddu bywyd tragwyddol. Wrth inni ddathlu'r Nadolig, helpa ni nid yn unig i weld ac i ddiolch bod Iesu'n Dduw a ddaeth atom, ond ei fod hefyd yn Dduw trosom yn ei aberth. Gad inni weld a phrofi rhodd dy ras yn Iesu Grist.

'Oherwydd yr ydych yn gwybod am ras ein Harglwydd
Iesu Grist, fel y bu iddo, ac yntau'n gyfoethog, ddod yn
dlawd drosoch chwi, er mwyn i chwi ddod yn gyfoethog
trwy ei dlodi ef.'

Diolch i ti am yr ŵyl hon sy'n ŵyl mor bwysig i'r teulu. Cofiwn am y baban, a'i deulu o gwmpas ei breseb. A diolchwn fod teulu dyn yn gallu dod yn deulu Duw drwyddo ef. Diolch am y modd y mae'r ŵyl yn dod â theuluoedd at ei gilydd. A diolch ei bod yn ŵyl a ddethlir gan deulu'r Eglwys ledled y ddaear. Gweddiwn dros deuluoedd ein heglwys a'n hardal; dros deulu dyn yn ei holl amgylchiadau; a thros deulu'r Eglwys Gristnogol ymhob man. Cofiwn bod yna bobl wahanol iawn eu hamgylchiadau i ni. Rhai y mae'n anodd iddynt ddathlu'r ŵyl oherwydd gwaeledd a phrofedigaeth, gwendid a henaint; neu oherwydd tlodi, newyn, rhyfel, gormes a thrais, diffyg cartrefi, unigrwydd a dadrithiad. Cofiwn am bawb na chlywodd y newyddion da am eni Iesu'n Waredwr a chyfaill iddynt, ac am y rhai a glywodd ond na chânt ryddid i'w addoli. Yng nghanol ein llawnder a'n digon, helpa ni, O! Dad, nid yn unig i weddio dros yr anghenus ond i estyn llaw a chymorth ym mha fodd bynnag y gallwn.

Cyflwynwn yr ŵyl i'th ofal a'th fendith eleni, O! Dad, gan ddiolch am bob caredigrwydd ac ewylllys da a brofwn. Ond diolchwn yn arbennig am Iesu y baban, Iesu y dyn perffaith a groeshoeliwyd drosom ond a gyfodwyd y trydydd dydd, ac sy'n Grist byw gyda ni heddiw a phob amser. Clyw ein gweddi a gwrando ni, O! Dad, a ninnau yn ei hoffrymu yn enw ac yn haeddiant ein Harglwydd a'n Gwaredwr Iesu Grist. Amen.

Dafydd Roberts